WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Hydref 2008
www.wao.gov.uk

# Amcangyfrif o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2010

**Cyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Baragraff 12 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 3 |
| Rôl yr Archwilydd Cyffredinol | 5 |
| Sut yr ariennir gwaith Swyddfa Archwilio Cymru | 5 |
| Gwaith archwilio ychwanegol sy'n codi yn 2009-10 | 7 |
| Cynnydd ar y materion ariannol a nodwyd yn yr amcangyfrif a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio y llynedd | 9 |
| Meysydd newydd o ansicrwydd sy'n effeithio ar Swyddfa Archwilio Cymru | 11 |
| Enillion effeithlonrwydd a ymgorfforwyd yn yr amcangyfrif | 12 |
| Dadansoddiad manwl o incwm a gwariant amcangyfrifedig ar gyfer 2009-10 | 12 |

# Crynodeb

1. O dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), mae'n rhaid i Weinidogion gynnig Cynnig Cyllidebol yn y Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodi'r defnydd o adnoddau, cadw incwm a thynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i bersonau perthnasol penodol, gan gynnwys yr Archwilydd Cyffredinol. Penderfynir ar gyllideb yr Archwilydd Cyffredinol, o dan Baragraff 12 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006, ar ôl i'r Pwyllgor Archwilio ystyried ei amcangyfrif blynyddol o incwm a threuliau, a'i osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.
2. Felly gwahoddir y Pwyllgor Archwilio i gymeradwyo'r amcangyfrif hwn o incwm a threuliau'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2010.
3. Mae'r amcangyfrif a gynigir yn cydbwyso pwysau cost hysbys ag effeithlonrwydd cynyddol o fwy na'r un y cant o welliant blynyddol a ddisgwylir gan gyrff cyhoeddus o dan Creu'r Cysylltiadau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn yr amcangyfrif hwn ar gyfer 2009-10 yn gofyn am gynnydd o £170,000 i gyd, o £4.90 miliwn i £5.07 miliwn (cynnydd o 3.5 y cant). Mae'r ffigur hwn yn ystyried gwaith archwilio ychwanegol a fydd ei angen yn 2009-10 a'r pwysau cost a ddisgwylir. Mae'r gwaith cynyddol yn cynnwys:
   - a. cymorth am weithgarwch craffu ychwanegol ar waith Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth y Cynulliad) gan y Cynulliad Cenedlaethol drwy ei Bwyllgor Archwilio a'r pwyllgorau craffu newydd;
   - b. galw cynyddol am adroddiadau a gwaith arall o natur drawsbynciol neu wasanaeth cyfan, y mae'n amhriodol eu hariannu o ffioedd gan gyrff unigol;
   - c. datblygu dysgu a rennir ynghylch arfer da ar draws gwasanaethau cyhoeddus ymhellach**,** gan gynnwys cynadleddau, seminarau ac adroddiadau;
   - d. atgyfnerthu llywodraethu corfforaethol, drwy er enghraifft, datblygu gwell trefniadau gwrth-wyngalchu arian ac ymdrin â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth.
4. Mewn perthynas â gwasanaethau a dibenion yr Archwilydd Cyffredinol yn y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2010, bydd y Cynnig Cyllidebol yn awdurdodi:
   - a. yr adnoddau sydd i'w defnyddio gan yr Archwilydd Cyffredinol;
   - b. yr adnoddau sy'n cronni i'r Archwilydd Cyffredinol y gall eu cadw (yn hytrach na'u talu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru);
   - c. y swm y gellir ei dalu o Gronfa Gyfunol Cymru i'r Archwilydd Cyffredinol.

5. Ceir crynodeb o'r gofynion hyn yn y tabl isod.

**Tabl 1: Crynodeb o ofynion cyllidebol 2009-10**

| | **£miliwn** |
|---|---|
| **Adnoddau** ac eithrio adnoddau sy'n cronni at ddefnydd yr Archwilydd Cyffredinol ar weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru, a chyflawni swyddogaethau statudol yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr penodedig llywodraeth leol [1]. | 5.07 |
| **Adnoddau cronnus** o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio a gwasanaethau cysylltiedig (heb gynnwys incwm o dan Ran 1 ac Adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, a Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004); costau eraill a adenillir sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol; incwm amrywiol o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol a phroffesiynol a thechnegol ac ati; costau a adenillir oherwydd staff wedi'u secondio; benthyciadau staff a ad-delir; taliadau prydlesu ceir a adenillir; a llog sy'n dderbyniadwy ar ffioedd balansau gwaith at ddefnydd yr Archwilydd Cyffredinol ar wasanaethau cysylltiedig a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru [2]. (Gweler Nodyn (xi) Tabl 3) | 9.75 |
| Gofyniad **arian parod net** o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn y flwyddyn gan yr Archwilydd Cyffredinol [3]. | 5.02 |

[1] Dyma'r refeniw a'r gwariant cyfalaf net o ran adnoddau y gofynnir i'r Cynulliad Cenedlaethol eu hawdurdodi drwy'r Cynnig Cyllidebol o dan Adran 125(1)(a) o Ddeddf 2006.

[2] Hwn yw'r incwm sy'n cronni i'r Archwilydd Cyffredinol (ac eithrio'r incwm sy'n codi o weithgareddau llywodraeth leol) y gofynnir i'r Cynulliad Cenedlaethol ei awdurdodi drwy'r Cynnig Cyllidebol o dan Adran 125(1)(b) i'w ddefnyddio ar wasanaethau cysylltiedig yn hytrach na chael ei dalu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru.

[3] Hwn yw'r arian parod sydd ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer taliadau net amcangyfrifedig yr Archwilydd Cyffredinol (taliadau llai derbyniadau) sy'n ddyledus yn y flwyddyn i'w hawdurdodi gan y Cynulliad Cenedlaethol drwy'r Cynnig Cyllidebol o dan Adran 125(1)(c) o Ddeddf 2006.

6. Yn ychwanegol at y symiau a ddangosir yn Nhabl 1, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cronni adnoddau o weithgareddau llywodraeth leol o dan Ran 1 ac Adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, a Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 y caniateir iddo eu cadw mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau o dan y darpariaethau statudol hynny. Yn ystod 2009-10 amcangyfrifir cyfanswm o £11.9 miliwn (2008-09 £11.4 miliwn). O dan Baragraff 9(3) o Atodlen 8 i Ddeddf 2006, awdurdodir yr Archwilydd Cyffredinol i gadw incwm o'r fath yn hytrach na'i dalu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru. Fel mewn blynyddoedd blaenorol felly nid yw'n rhan o'r swm i'w awdurdodi drwy'r Cynnig Cyllidebol o dan Adran 125(1)(b) o Ddeddf 2006 ac mae wedi'i gynnwys er gwybodaeth.

## Rôl yr Archwilydd Cyffredinol

7. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol:

   a **Mae'n archwilio cyfrifon** Comisiwn y Cynulliad, Cronfa Gyfunol Cymru, Llywodraeth y Cynulliad, cyrff cyhoeddus Llywodraeth y Cynulliad, a phob corff GIG yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol (gan gynnwys awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned).

   b Mae ganddo'r pŵer i gynnal archwiliadau a chyhoeddi **adroddiadau ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd** a gwneud argymhellion ar gyfer gwella ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

   c Mae'n ofynnol iddo **arolygu cyrff llywodraeth leol** o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella.

   d Mae ganddo bwerau i ymgymryd ag **aseiniadau cynghori am dâl** i gyrff cyhoeddus yng Nghymru neu tu hwnt.

8. Ailsefydlodd Deddf 2006 rôl a swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol ar sail ddiwygiedig i ryw raddau. Cyflwynodd rai swyddogaethau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys rhoi **cymeradwyaethau i dynnu** o Gronfa Gyfunol Cymru.

## Sut yr ariennir gwaith Swyddfa Archwilio Cymru

9. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymgymryd ag amrywiaeth eang o waith archwilio ac arolygu mewn sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Nodir y prif elfennau, ynghyd â'r ffynonellau ariannu, yn Nhabl 2.

**Tabl 2: Prif weithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru a ffynonellau ariannu**

| Gweithgaredd | Graddfa | Sut y caiff ei ariannu |
|---|---|---|
| Gwaith archwilio gwerth am arian/perfformiad ar Gomisiwn y Cynulliad, Llywodraeth y Cynulliad, cyrff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, GIG Cymru, y sector addysg bellach a'r sector addysg uwch.<br>Cymorth i'r Pwyllgor Archwilio a phwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol.<br>Gohebiaeth gan aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol a chan aelodau'r cyhoedd. | Cyfanswm y gwariant y cynhelir archwiliadau gwerth am arian/perfformiad yn ei gylch tua £15 biliwn.<br>Briffio'r Pwyllgor Archwilio cyn ei 20-24 o gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn; darparu adroddiadau drafft; a chynghori ar ymatebion Llywodraeth y Cynulliad. | O Gronfa Gyfunol Cymru. |

| Gweithgaredd | Graddfa | Sut y caiff ei ariannu |
|---|---|---|
| Archwilio cyfrifon a baratoir gan Gomisiwn y Cynulliad, Llywodraeth y Cynulliad a chyrff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) ac ymddiriedolaethau'r GIG. | Naw cyfrif a baratoir gan Lywodraeth y Cynulliad.<br>Dros 60 o gyfrifon eraill, gan gynnwys 22 BILl a 15 ymddiriedolaeth GIG. (Nid yw manylion am y newidiadau a ddisgwylir i ad-drefnu'r GIG yn hysbys ond bydd unrhyw newid yn ystod y flwyddyn yn arwain at gynnydd yn y cyfrifon yn y byrdymor). | Ffioedd ar godir ar gyrff a archwilir. |
| Gwaith archwilio ac arolygu ariannol, gwerth am arian/perfformiad (Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella) ar gyrff llywodraeth leol. | Dau awdurdod unedol ar hugain; pedwar awdurdod yr heddlu; tri awdurdod tân ac achub; pedwar bwrdd prawf; tri awdurdod parciau cenedlaethol; a thua 750 o gynghorau cymuned. | Ffioedd ar godir ar gyrff a archwilir ac a arolygir. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu gwaith ar Raglen Cymru ar gyfer Gwella yn rhannol. |
| Gwaith ardystio grantiau a gwaith arall a wneir drwy gytundeb. | Gwaith a wneir yn bennaf yn y 22 awdurdod unedol, Llywodraeth y Cynulliad a sawl corff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad. | Ariennir drwy ffioedd. |

**Nodyn**

Gallai gwaith o natur drawsbynciol, megis astudiaeth sy'n cwmpasu Llywodraeth y Cynulliad a llywodraeth leol, ddod o dan fwy nag un o'r gweithgareddau uchod a chael ei ariannu drwy gyfuniad o ffioedd ac arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

10. Mae tua phedair rhan o bump o'r gwaith yn cael ei ariannu drwy ffioedd a godir ar gyrff a archwilir ac a arolygir. Pennir y ffioedd hyn i adennill cost lawn y gwaith dan sylw.

11. Mae'r archwiliad o gyrff y GIG yn debygol o newid o ganlyniad i'r ymarfer a d-drefnu mawr a gyhoeddwyd gan y Gweinidog dros Iechyd ym mis Medi. Mae ansicrwydd mawr ynglŷn â manylion yr ymarfer ad-drefnu a'i effaith ar waith archwilio. Felly mae'r tabl uchod yn adlewyrchu'r wybodaeth sydd ar gael ar adeg ysgrifennu.

## Gwaith archwilio ychwanegol sy'n codi yn 2009-10

### Trefniadau cyfansoddiadol

12. O dan Ddeddf 2006 crëwyd llywodraeth weithredol i Gymru sy'n atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol ond ar wahân iddo yn gyfreithiol. Mae gwahanu'r gangen weithredol oddi wrth y gangen ddeddfwriaethol/craffu yn y modd hwn wedi arwain at alw newydd ar yr Archwilydd Cyffredinol i gyflwyno adroddiadau a thystiolaeth arall i'r amrywiol bwyllgorau craffu. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cynyddu ei weithgarwch ac mae bellach yn cyfarfod ddwywaith y mis o gymharu ag unwaith y mis o'r blaen. Gellir disgwyl i'r cynnydd hwn yn y llwyth gwaith barhau a bod yn rhan o'r cais am adnoddau ar gyfer 2009-10.

### Prosiectau trawsbynciol a gwasanaeth cyfan

13. Y rhesymeg dros greu Swyddfa Archwilio Cymru yn un corff archwilio cyhoeddus yng Nghymru oedd hwyluso'r gwaith o archwilio a chraffu a chynorthwyo gwelliant ym mhob sector a ledled Cymru gyfan. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys gwaith ar *Creu'r Cysylltiadau,* oedi cyn trosglwyddo gofal, a hyrwyddo gweithgarwch corfforol. Mae prosiectau o'r fath yn canolbwyntio ar themâu neu wasanaethau cyfan – nid ar sefydliadau. Fodd bynnag, gall ariannu gwaith o'r fath fod yn gymhleth oherwydd efallai y byddai'n rhaid cyd-drafod ffi, neu gyfran o ffi, â nifer o gyrff cyhoeddus, y mae pob un ohonynt yn chwarae rhan yn y gwaith o ddarparu'r gwasanaeth cyfan a adolygir. Mae annigonolrwydd y dull ariannu hwn yn cyfyngu ar allu'r Archwilydd Cyffredinol i ymgymryd â phrosiectau hollbwysig o'r fath.

### Dysgu a rennir ynghylch Arfer Da

14. Mae pwysigrwydd dysgu a rennir yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn amlwg wedi'i gydnabod yn Strategaeth Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r gwaith o rannu dysgu wedi ennyn cryn ddiddordeb a chefnogaeth ymhlith cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r cysyniad yn syml, mae ei roi ar waith yn anodd, ond gall yr effaith fod yn enfawr – mae'n golygu nodi arfer da, gwerthuso i ba raddau y gellir ei drosglwyddo a hwyluso gweithredu i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

15. Mae gwaith o'r fath nid yn unig yn fuddiol ynddo'i hun, ond mae hefyd yn dangos nad yw swyddogaeth archwilwyr wedi'i chyfyngu o bell ffordd i archwilio camgymeriadau yn y gorffennol a rhoi bai ar y rhai a fu'n gyfrifol amdanynt.

16. Gellir gweld y gwaith a wnaed hyd yn hyn ynghyd â'r canllawiau dilynol ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn y Gyfnewidfa Arfer Da ac mae'n cynnwys:

   a iechyd galwedigaethol;

   b ffyrdd callach o weithio;

   c rheoli grantiau;

   d rheoli absenoldeb oherwydd salwch;

   e rheoli fflyd.

17. Bwriedir cyhoeddi mwy o ddeunyddiau arfer da sy'n trafod pynciau megis rheoli tir ac adeiladau, cau cyfrifon ariannol yn gynt a threfniadau llywodraethu mewn cynghorau cymuned yn y dyfodol agos.

## Gwella TG

18. Oherwydd natur y gwaith a wna, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweld gwybodaeth gyfrinachol a hynod sensitif. Mae mesurau llym eisoes ar waith i ddiogelu data o'r fath, ond mae angen o hyd i adolygu a gwella'r cyfleusterau fel y bo'n briodol er mwyn sicrhau bod data o'r fath yn parhau'n ddiogel.

19. Fel rhan o'r adolygiad hwn, mae angen uwchraddio cyfarpar TG Swyddfa Archwilio Cymru i ddarparu amgryptiad soffistigedig i bob gliniadur a chofbin. Mae cost uwchraddio o'r fath, sef tua £65,000, yn rhan o'r cais am adnoddau ar gyfer 2009-10.

## Ymateb i geisiadau ar fyr rybudd

20. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi llwyddo i ymateb yn ddi-oed ar fyr rybudd i gais y Cynulliad Cenedlaethol i gynnal amrywiol adolygiadau megis yr ymchwiliad i'r gwasanaethau ambiwlans a chymryd rhan fel sylwedydd yn y rhaglen fawr o ailstrwythuro'r GIG. Mae wedi gwneud hynny heb ofyn am arian ychwanegol ond bu'n rhaid iddo ohirio gwaith pwysig arall. Mae'r gallu i barhau i ymateb yn ddi-oed i geisiadau tebyg ar fyr rybudd yn rhywbeth dymunol iawn yn ei farn ef ac mae'r amcangyfrif hwn yn adlewyrchu'r awydd hwnnw i barhau i wneud hynny.

## Cyflwyno Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol

21. Ar gais y Trysorlys, mae Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) yn cael eu cyflwyno ledled y sector cyhoeddus yn y DU dros y ddwy flynedd nesaf, gan sicrhau bod cyfrifon cyhoeddus yn unol â rhai'r sector preifat. Mae'r broses gyflwyno ei hun a'r defnydd o'r safonau newydd yn golygu gwaith ychwanegol sylweddol gan archwilwyr. Mae'n rhaid i'r ailddatganiad o gyfrifon blynyddol pob corff cyhoeddus gael ei archwilio ar sail newydd sy'n cydymffurfio â'r IFRS. Mae'n rhaid i gyngor archwilio hefyd gael ei roi ar y driniaeth gyfrifyddu briodol ar gyfer pob Menter Cyllid Preifat/cynllun Partneriaeth Cyhoeddus-Preifat ac ati. Hyd yn oed ar ôl i'r gwaith trosi cychwynnol cymhleth gael ei gwblhau, disgwylir felly i'r gwaith o gymhwyso gofynion yr IFRS a fydd yn fwy beichus na'r safonau cyfredol bob blwyddyn ychwanegu costau archwilio ariannol blynyddol (yn unol â phrofiad y sector preifat).

## Llywodraethu corfforaethol cryfach

22. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd wedi gwneud trefniadau i fodloni gofynion y ddeddfwriaeth gyfredol ym maes gwrth-wyngalchu arian a Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2007, sy'n gweithredu'r Drydedd Gyfarwyddeb Gwyngalchu Arian. Mae'r rheoliadau newydd wedi gosod dyletswydd benodol ar yr Archwilydd Cyffredinol (a orfodir drwy gosbau troseddol) i roi gwybod am amheuon a gwybodaeth ynglŷn â thrafod elw troseddau i'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol. Felly mae'n rhaid i bob aelod o staff yn Swyddfa Archwilio Cymru sy'n ymwneud â chleientiaid gael hyfforddiant trwyadl ar adnabod achosion o amheuon neu wybodaeth ynglŷn â thrafod elw troseddau ac ymateb iddynt ac ar weithredu'r systemau adrodd.

# Cynnydd ar y materion ariannol a nodwyd yn yr amcangyfrif a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio y llynedd

23. Yn yr amcangyfrif y llynedd nodwyd y materion hollbwysig a oedd yn effeithio ar y costau y disgwylid i'r sefydliad fynd iddynt. Mae'r adran hon yn rhoi'r diweddaraf o ran y pwysau cost hynny ac yn tynnu sylw at feysydd newydd neu barhaus o ansicrwydd.

## Gwerthuso swyddi

24. Fel y cam olaf mewn ymgorffori staff o'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru a Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, yn un fframwaith o gyflog ac amodau gwasanaeth, mae staff Swyddfa Archwilio Cymru yn mynd drwy broses gwerthuso swyddi ar hyn o bryd. Bydd y broses hon yn asesu cyflogau yn erbyn y farchnad yn ffurfiol ac yn sicrhau bod staff yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal. Cwblhawyd Cam 1 ym mis Mai 2008 ac ymgorfforwyd costau sy'n gysylltiedig â'r ymarfer gwerthuso swyddi hyd yma o fewn gweithrediadau'r sefydliad o ddydd i ddydd. Dylai'r broses gyfan gael ei chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Bydd unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r broses hon hefyd yn rhan o'r gweithrediadau o ddydd i ddydd.

## Swyddfeydd a chyfleusterau

25. Lleolir staff Swyddfa Archwilio Cymru ledled Cymru, rhai yn swyddfeydd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, ac eraill yn ein swyddfeydd ein hunain yng Nghaerfyrddin, Ewlo, Abertawe a Chaerdydd. Pan sefydlwyd Swyddfa Archwilio Cymru yn 2005 trosglwyddwyd y ddau adeilad ar wahân yng Nghaerdydd lle bu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru i'r Archwilydd Cyffredinol ynghyd â'r ymrwymiadau cytundebol cysylltiedig (ee, trefniadau rheoli cyfleusterau). Bydd y prydlesau cyfredol ar y ddau adeilad yn dod i ben, neu y gellir arfer cymalau terfynu, erbyn diwedd 2009. Mae'n ddoeth osgoi cadw prydlesau o'r fath tan y funud olaf ac felly mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi caffael adeilad newydd yn ystod 2007-08, ar sail prydles, i gyfuno'r swyddfeydd presennol yng Nghaerdydd. Ail-leolwyd staff ym mis Mawrth 2008. Mae'r symud wedi arwain at arbedion effeithlonrwydd gweithredol ac arbedion arian parod (tua £30,000 y flwyddyn) o wasanaethu un yn hytrach na dau adeilad.

26. Mae symud i un swyddfa yng Nghaerdydd wedi arwain at nifer o fanteision ehangach megis:

- Gwell cyfathrebu rhwng yr holl staff sydd wedi'u lleoli yng Nghaerdydd a rhyngddynt hwy a'r rhai sy'n ymweld â Chaerdydd.
- Defnydd mwy effeithlon o gyfarfodydd mewnol: mae angen llai o gyfarfodydd ffurfiol am fod cyfathrebu anffurfiol wedi gwella; pan fydd angen trefnu cyfarfodydd gellir gwneud hynny ynghynt ac nid oes angen i staff gerdded o un adeilad i'r llall mwyach. Mae buddiannau o'r fath yn wirioneddol, ond, oherwydd eu natur, nid oes modd eu mesur.
- Effaith amgylcheddol gadarnhaol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud cais i'r swyddfa newydd gael ei hasesu drwy ddefnyddio Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) ac er y disgwylir canlyniad da iawn nid yw wedi'i gadarnhau'n swyddogol eto. Hefyd mae Swyddfa Archwilio Cymru, fel rhan o'i system rheoli amgylcheddol, yn gweithio tuag at ennill safon amgylcheddol y Ddraig Werdd.
- Defnydd llai o ynni a dŵr ar sail meddiannu un safle.

27. Mae cyd-drafodaethau'n mynd rhagddynt i isbrydlesu neu dynnu'n ôl o'r prydlesau cyfredol. Efallai y bydd taliadau dadfeiliadau o ganlyniad i'r prydlesau yn dod i ben. Rhagwelir y bydd y costau hyn yn rhan o gostau gweithrediadau o ddydd i ddydd.

28. Mae'r amcangyfrif yn darparu ar gyfer rhai costau parhaus, megis costau prydlesau, a all godi yn 2009-10 oherwydd trosglwyddo gweithrediadau o'r adeiladau presennol i'r adeilad newydd.

## Costau pensiwn staff

29. Nid yw staff yr Archwilydd Cyffredinol yn weision sifil ond, yn debyg i staff nifer o gyrff eraill yn y sector cyhoeddus nad ydynt wedi'u staffio gan weision sifil, maent yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Cwblhaodd rheolwyr y cynllun eu hadolygiad pob pedair blynedd, hyd at 31 Mawrth 2007, o ariannu'r cynllun pensiwn, ym mis Ionawr 2008. Arweiniodd hyn at leihad yng nghyfraniad pensiwn y cyflogwr yn weithredol o fis Ebrill 2009, sef cyfanswm o £120,000 ac fe'i cofnodir o fewn yr amcangyfrif.

## Treth Ar Werth

30. Fel yn achos yr amcangyfrif a gyflwynwyd y llynedd, nid yw Cyllid a Thollau EM wedi dyfarnu eto ynglŷn ag arfer y Comisiwn Archwilio o ychwanegu Treth ar Werth (TAW) at ei ffioedd arolygu a godir ar lywodraeth leol a chyrff y GIG, a gwrthbwyso hyn yn erbyn TAW sy'n daladwy ar gyflenwadau a gwasanaethau.

31. Fel mesur dros dro, mae Cyllid a Thollau EM wedi cytuno y gall y trefniadau cyfredol barhau nes bod adolygiad. Fel y llynedd, mae'r Archwilydd Cyffredinol felly wedi tybio y bydd y trefniadau cyfredol yn parhau heb eu newid at ddiben llunio amcangyfrifon 2009-10 ac nid yw wedi cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer TAW ychwanegol na ellir ei hadennill. Os bydd unrhyw newidiadau, bydd angen i'r Archwilydd Cyffredinol drafod â'r Pwyllgor Archwilio a ddylai'r costau ychwanegol gael eu hariannu drwy ffioedd ychwanegol, mwy o arian o Gronfa Gyfunol Cymru neu drwy gyfuniad o'r ddau.

# Meysydd newydd o ansicrwydd sy'n effeithio ar Swyddfa Archwilio Cymru

32. Mae cynigion y Gweinidog dros Iechyd ynglŷn ag ad-drefnu'r sector Iechyd yn golygu ei bod yn debygol y bydd angen cryn dipyn o waith ychwanegol yn y byrdymor. Bydd y gwaith yn codi yn sgîl creu nifer o gyfrifon am ran o flwyddyn yn unig ac effaith cyflwyno IFRS. Ar ôl y blynyddoedd cychwynnol o ad-drefnu, pan ddisgwylir i'r gwaith archwilio, ac felly'r ffioedd cysylltiedig gynyddu, gellid disgwyl i'r lefelau incwm ostwng, ond i ba lefel nid yw'n sicr eto. Ar hyn o bryd, mae'n anodd iawn amcangyfrif pa effaith y bydd ad-drefnu'r GIG yn ei chael ar incwm o ffioedd. Efallai y bydd i'r ansicrwydd ariannol sy'n codi o'r sefyllfa a ddisgrifir uchod oblygiadau o ran amcangyfrifon a gyflwynir yn y dyfodol.

## Enillion effeithlonrwydd a ymgorfforwyd yn yr amcangyfrif

33. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwirfoddoli i fabwysiadu targed un y cant o enillion effeithlonrwydd i Swyddfa Archwilio Cymru am y cyfnod rhwng 2006-07 a 2010-11, yn unol â'r targed a bennwyd i gyrff y sector cyhoeddus gan Lywodraeth y Cynulliad. Yn gyson â'r ffordd y dehonglir y targed hwnnw drwy'r gwasanaeth cyhoeddus mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dehongli'r targed fel un y cant fesul flwyddyn o wariant. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2007-08, gwnaed arbedion archwiliedig cronnol o £545,000, sef £80,000 yn fwy na'r targed.

34. Mae'r prif feysydd o enillion effeithlonrwydd yn cynnwys cyflwyno system cyfrifyddu a rheoli adnoddau newydd, a system Adnoddau Dynol a Chyflogres integredig. Mae'r systemau hyn yn esgor ar arbedion arian parod cylchol o tua £100,000 y flwyddyn ac maent wedi gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Hefyd, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyflogi nifer o staff asiantaeth ar delerau contract staff hyblyg parhaol. Mae hyn nid yn unig yn rhoi mwy o barhad, effeithlonrwydd a chronfa o staff mwy hyfforddedig, mae hefyd wedi arwain at arbedion yn y symiau a fyddai fel arall yn daladwy mewn comisiwn i asiantaethau recriwtio. Fel rhan o'r arbedion archwiliedig cronnol, fel y nodwyd uchod, mae'r arbedion effeithlonrwydd o un y cant sydd wedi'u hymgorffori yn y cynnydd mewn cyfraddau ffioedd dyddiol, sef tua £170,000 y flwyddyn.

## Dadansoddiad manwl o incwm a gwariant amcangyfrifedig ar gyfer 2009-10

35. Mae Tabl 3 yn rhoi amcangyfrif manwl o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2009-10 o gymharu â'r ffigurau amcangyfrifedig ar gyfer 2008-09, gan gynnwys dadansoddiad o'r prif feysydd o wariant.

**Tabl 3: Dadansoddiad manwl o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru 2009-10**

| | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | **£miliwn** | **£miliwn** | **£miliwn** | **£miliwn** |
| Archwilio ac arolygu cyrff llywodraeth leol | (i) | | 9.60 | | 10.05 |
| Grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella | | | 1.50 | | 1.40 |
| Ardystio ceisiadau am grant | (ii) | | 2.30 | | 2.40 |
| Archwilio Llywodraeth y Cynulliad, cyrff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig | (iii) | | 1.20 | | 1.25 |
| Archwilio cyrff GIG Cymru | (iv) | | 5.70 | | 5.95 |
| Arall | (v) | | 0.40 | | 0.60 |
| Cyfanswm yr incwm | | | **20.70** | | **21.65** |
| **Gwariant** | | | | | |
| Costau staff a chostau cysylltiedig | (vi) | | 15.70 | | 16.31 |
| Ffioedd sy'n daladwy i archwilwyr penodedig, contractwyr asiantaeth ac ymgynghorwyr | (vii) | | 5.00 | | 5.23 |
| Swyddfeydd a chostau cysylltiedig | (viii) | 1.30 | | 1.38 | |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | (ix) | 1.30 | | 1.40 | |
| Gwasanaethau corfforaethol | (x) | 2.10 | | 2.20 | |
| Taliadau cyfalaf | | 0.20 | 4.90 | 0.20 | 5.18 |
| Cyfanswm gwariant refeniw | | | **25.60** | | **26.72** |
| Gwariant cyfalaf | | | 0 | | 0 |
| **Cais net am adnoddau** | | | **4.90** | | **5.07** |
| **Gofyniad arian parod net** | | | **4.90** | | **5.02** |

**Nodiadau**

(i) Disgwylir i incwm archwilio ac arolygu gynyddu yn unol â chwyddiant, ynghyd â symiau ychwanegol cymharol ansicr ar gyfer gofynion cyfrifyddu newydd, yn dibynnu ar berfformiad cyrff llywodraeth leol.

(ii) Disgwylir i incwm ardystio grantiau gynyddu yn unol â chwyddiant

(iii) Disgwylir i gostau Archwilio Llywodraeth y Cynulliad, cyrff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig gynyddu yn unol â chwyddiant fwy neu lai.

(iv) Disgwylir i'r ffi archwilio gynyddu yn unol â chwyddiant.

(v) Disgwylir i incwm arall gynyddu oherwydd balansau arian parod a chyfraddau buddsoddi uwch.

(vi) Disgwylir i gostau staff a chostau cysylltiedig gynyddu yn unol â mynegai prisiau defnyddwyr a ragwelir sef tua 3.8 y cant. Ni ddylid dehongli'r ffigur hwn fel rhagamcan o setliadau cyflog gan ei fod yn cynnwys costau ehangach y tu hwnt i'r gyflogres.

(vii) Disgwylir i ffioedd sy'n daladwy i archwilwyr penodedig a chontractwyr gynyddu yn unol â chwyddiant, ynghyd â symiau ychwanegol cymharol ansicr ar gyfer gofynion cyfrifyddu newydd yn dibynnu ar berfformiad cyrff llywodraeth leol.

(viii) Rhagwelir y bydd costau swyddfeydd yn cynyddu £80,000 yn gyffredinol er bod arbedion wedi'u gwneud drwy drosglwyddo i un bencadlys (paragraff 25) oherwydd costau ynni uwch a ddisgwylir.

(ix) Disgwylir i gyflenwadau a gwasanaethau gynyddu £70,000 mewn termau real oherwydd y cynnydd a ragwelir mewn gwaith.

(x) Disgwylir i gostau gwasanaethau corfforaethol gynyddu yn unol â chwyddiant.

(xi) Cysoni incwm â Thabl 1.

Mae adnoddau cronnus ac eithrio o dan Ran 1 ac Adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, a Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn cynnwys:

| | **2008-09 £miliwn** | **2009-10 £miliwn** |
|---|---:|---:|
| Ardystio ceisiadau am grant | 2.30 | 2.40 |
| Archwilio Llywodraeth y Cynulliad, cyrff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig | 1.20 | 1.25 |
| Archwilio cyrff GIG Cymru | 5.70 | 5.95 |
| Arall | 0.10 | 0.15 |
| **Cyfanswm** | **9.30** | **9.75** |

**Tabl 4: Cysoni'r gofyniad am adnoddau â'r gofyniad tynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru**

| | **2008-09 £miliwn** | **2009-10 £miliwn** |
|---|---:|---:|
| Cais net am adnoddau | 4.90 | 5.07 |
| Symudiad mewn dyledwyr, credydwyr ac incwm gohiriedig ar ddiwedd y flwyddyn | 0.20 | 0.15 |
| Taliadau cyfalaf (llog a dibrisiant) | (0.20) | (0.20) |
| **Gofyniad arian parod net** | **4.90** | **5.02** |

Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Hydref 2008

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk